

## Trosglwyddo eich Hawliau Pensiwn Blaenorol

Os ydych wedi ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn ddiweddar a bod gennych hawliau pensiwn blaenorol, gallwch drosglwyddo'r hawliau yma i'r Cynllun ar yr amod bod cais i wneud hynny yn cael ei wneud oddi fewn i **12 mis o ymuno â'r cynllun** (er bod gan eich cyflogwr ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn). Rydych yn gallu trosglwyddo o Gronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (ALI) arall, drefniant pensiwn galwedigaethol neu drefniant Pensiwn Personol.

## Beth yw Gwerth Trosglwyddo?

Mae 'gwerth trosglwyddo' (a elwir hefyd yng Ngwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod) yn cynrychioli gwerth eich hawliau pensiwn gydag eich darparwr blaenorol. Os yw trosglwyddiad yn cymryd lle, bydd y gwerth trosglwyddo yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn gan eich darparwr blaenorol a byddwch yn cael eich credydu â hawliau pensiwn ychwanegol yn y CPLIL. Unwaith mae'r gwerth trosglwyddo wedi ei dalu, fel arfer, ni fydd gennych hawl i fuddion pellach gan eich darparwr pensiwn blaenorol.

## Sut bydd trosglwyddiad o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol arall yn cael ei drin?

Os ydych wedi cyfrannu yn flaenorol i'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr, bydd eich hawliau pensiwn yn cael eu hychwanegu yn awtomatig gyda'ch cyfnod newydd o aelodaeth, ONI BAI eich bod yn gymwys i gadw'r buddion ar wahân, ac os felly bydd rhaid i'ch etholiad cael ei wneud o fewn 12 mis o ail-ymuno a'r CPLIL. Nodwch, os oes gennych fwy nag un budd-dal gohiriedig o gyfnod blaenorol o aelodaeth CPLIL (yn yr un Gronfa neu yn Cronfeydd wahânlol), mae'n rhaid i chi ddewis naill ai i drosglwyddo'r **HOLL** buddion gohiriedig, neu ddim o gwbl.

Os ydych yn ail-ymuno â'r CPLIL ar neu cyn 31 Mawrth 2014 ac rydych wedi cael seibiant parhaus o aelodaeth weithredol o LAI na 5 mlynedd, byddwch yn cadw'r cyswllt cyflog terfynol a bydd eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael ei drosglwyddo ar sail 'diwrnod am ddiwrnod'. Bydd eich pensiwn rydych wedi cronni o dan yr elfen Cyfartaledd Gyrfar' cynllun (o 1 Ebrill 2014) hefyd yn cael ei drosglwyddo ar sail 'tebyg and debyg'. Fodd bynnag, os ydych wedi cael seibiant parhaus yn aelodaeth weithredol o FWY na 5 mlynedd, bydd unrhyw gyswllt cyflog terfynol yn cael ei golli wrth drosglwyddo a byddwch yn cael eich credydu a swm o bensiwn o dan yr elfen Cyfartaledd Gyrfar' cynllun.

Os ydych wedi talu yn flaenorol i drefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) mewnol, byddwch yn gallu trosglwyddo eich cronfa CGY at y darparwr mewnol a gynigir gan eich Cronfa bensiwn newydd. Fel arall, os oeddech yn talu tuag at contract 'Blynnyddoedd Ychwanegol' / Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) / Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY), efallai y byddwch yn gallu parhau i dalu cyfraniadau ychwanegol gyda'ch cyflogwr CPLIL newydd. Er mwyn parhau gyda'r cyfraniadau ychwanegol hyn, dyl-ech roi gwybod i'ch Cronfa Bensiwn newydd yn syth.

## Sut bydd trosglwyddo o Gynllun Galwedigaethol neu Gynllun Pensiwn Personol yn cael ei drin?

Os ydych wedi bod yn aelod o **Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus** yn flaenorol ac wedi cael egwyl barhaus o lai na 5 mlynedd yn eich aelodaeth weithredol, byddwch yn cadw unrhyw gyswllt cyflog terfynol wrth drosglwyddo i'r CPLIL (os yn berthnasol). Fodd bynnag, os ydych wedi cael egwyl barhaus o aelodaeth weithredol o FWY na 5 mlynedd, bydd unrhyw gyswllt cyflog terfynol yn cael ei dorri ar drosglwyddo.

Mae aelodaeth o **Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus** yn golygu aelodaeth weithredol o gynllun sy'n cwmpasu Gweision Sifil, Y Farnwriaeth, y Lluoedd Arfog, unrhyw gynllun yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban sy'n cynnwys gweithwyr Llywodraeth Leol, neu Athrawon, gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd, gweithwyr Tân ac Achub, aelodau Heddlu neu aelodau o gynllun pensiwn Corff Cyhoeddus newydd.

Bydd unrhyw drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol o gynllun Sector Preifat neu drefniant Pensiwn Personol yn cael eu trin yn wahanol i'r rhai o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus. Bydd y pensiwn ychwanegol sy'n cael ei gredydu ar drosglwyddo yn amrywio'n fawr o gynllun i gynllun ac anaml y bydd yn ennill credyd pensiwn cyfatebol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Sut mae'r broses trosglwyddo yn gweithio?

Mae'n hanfodol eich bod yn gwneud eich cais i drosglwyddo unrhyw hawliau pensiwn blaenorol drwy gwblhau'r ffurflen briodol (i'w ddarparu gan eich Cyflogwr / Cronfa Bensiwn newydd) o fewn y 12 mis o ymuno â'r Cynllun. Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau ym MHOB ACHOS, p'un a ydych yn dymuno trosglwyddo neu beidio.

Gorau po gyntaf i chi ddychwelyd y ffurflen hon y gorau, gan mae trosglwyddiadau yn tueddu cymryd peth amser i'w cwblhau, gan mae bob cynllun unigol gyda rheolau a rheoliadau trosglwyddo cymleth, yn ogystal â gorfod cadw at ddeddfwriaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Unwaith y bydd yr holl wybodaeth berthnasol wedi dod i law, bydd y Gronfa Bensiwn yn anfon amcangyfrif o'r hawliau pensiwn ychwanegol sydd i'w cael gan werth trosglwyddo a gynigir gan eich darparwr blaenorol. Wedi hynny, mae'n bwysig eich bod yn cwblhau a dychwelyd yr holl ddogfennau angenrheidiol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, efallai y byddwch am geisio Cyngor Ariannol Annibynnol cyn gwneud eich etholiad, gan unwaith y bydd y taliad gwerth trosglwyddo yn cael ei wneud, ni ellir tynnu'n ôl eich etholiad.

## Rhagor o Wybodaeth

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: **01443 680 611**

E-bost: [pensiynau@rctcbc.gov.uk](mailto:pensiynau@rctcbc.gov.uk)



**Trosglwyddo eich Buddion  
Pensiwn Blaenorol i CPLIL**